"Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato, a bydd y ddau honom yn cydfwyta gyda'n gilydd."
(Datguddiad 3:20)

Dyma un o adnodau mwyaf adnabyddus y Beibl, a cheisiwn edrych arni yn ei chyd-destun gwreiddiol.

Llythyr Crist

Mae'r adnod yn rhan o seithfed llythyr y Crist atgyfodedig at eglwysi amrywiol yn Asia'r Testament Newydd. Mae'r llythyron yn cael eu trosglwyddo trwy'r apostol Ioan oedd ar ynys Patmos ar gyfrif ei ffydd yng Nghrist.

Mae'r Arglwydd yn ei alw'i hun yn **'Amen'.** Ystyr hynny yw 'yn wir', sydd yn pwysleisio mai Iesu Grist yw'r gwirionedd. Mae'r ail deitl **'y tyst ffyddlon a gwir'** yn cadarnhau hyn. Dyma Fugail ei eglwys yn dweud y gwir wrth ei bobl mewn cariad. Ond mae'r teitl olaf **'dechreuad creadigaeth Duw'** yn ein hatgoffa o'i Dduwdod a'i waith yn y Creu: **'hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod'** (Ioan 1:3). Felly, mae gwirionedd cariadus y Duw-ddyn yn y llythyr hwn.

Safle Crist

Rhyfeddod yr adnod i mi yw fod Crist y tu allan i'w eglwys. Darlun ydy'r drws caeedig o'r ffaith ei fod wedi ei gau allan o fywyd a gwaith eglwys sy'n dwyn ei enw. Dyma drasiedi gwirioneddol! Beth sydd wedi achosi hyn?

Claerineb. Mae Crist yn defnyddio darlun arall i ddisgrifio claerineb y Laodiceaid. Mae'n eu cymharu â dŵr afiach dinas Laodicea. Ychydig i'r gogledd yn Hierapolis roedd dŵr poeth, iachusol yn llawn mwynau. I'r de roedd Colosae a'r ffynhonnau o ddŵr oer, pur. Doedd tystiolaeth Cristnogion Laodicea ddim yn iachusol nac yn ffres, ond yn glaear. Felly, doedd dim lles i eraill, ac roeddent yn codi cyfog ar y Gwaredwr.

Cyfoeth. Yna, fe welwn dri darlun yn cyfleu balchder y Laodiceaid. Roedd y ddinas yn enwog am ei chyfoeth aruthrol, am gynhyrchu dillad gwych, ac am eli llygaid oedd yn cael ei allforio i sawl rhan o'r byd. Ac fel yr oedd y ddinas yn llwyddiannus ar gyfrif ei banciau, ei diwydiant tecstiliau a'i hysgolion meddygol, yr oedd yr eglwys yn tybio'i bod yn llwyddiant ysbrydol ysgubol. Fel yr oedd y ddinas wedi ei chodi ei hun i'w statws aruchel, roedd yr eglwys yn tybio mai hi ei hun oedd wedi ei dyrchafu i'r uchelfannau ysbrydol. Roedd wedi syrthio i

fagl erchyll balchder ysbrydol.

Hyn oedd yn gyfrifol am gau Pen yr eglwys allan, felly. Yng nghanol ffyniant hunangreedig Laodicea, doedd dim angen Tywysog eu hiachawdriaeth.

Barn Crist

Mae 'pôl piniwn' yn arf pwysig yn ein byd heddiw. Mae'n cael ei ddefnyddio gan wleidyddion, y cyfryngau a byd busnes. I'r Cristion ac i Eglwys Iesu Grist, nid barn y mwyafrif yn ein byd na'n barn ein hunain sydd yn cyfrif yn y pendraw, ond barn ein Gwaredwr a'n Harglwydd. Iddo Ef y byddwn yn atebol yn Nydd y Farn, ac Ef yw ein cyfaill gorau a'n bugail da.

Roedd barn Crist am eglwys Laodicea yn dra gwahanol i'w barn nhw am eu hunain. Tra'u bod nhw'n tybio'u bod ymhlith y cyfoethogion roedd yr Arglwydd yn eu gweld ymhlith y tlodion a'r cardotwyr. A'r rheswm am hynny oedd nad oedd Ef yng nghanol eu cyfoeth.

Sut mae Iesu Grist yn gweld dy fywyd di heddiw? Os nad yw Ef yn y canol, os nad yw Ef yn dy galon, rwyt ti'n gardotyn ysbrydol.

Sut mae Ef yn gweld dy eglwys ar hyn o bryd? Os nad yw Ef yn y canol, os na wneir popeth mewn ymgynghoriad ag Ef ac â'i air, mae'r eglwys yn dlawd am fod Pen yr eglwys yn cael ei gau allan.

Cynnig Crist

Mae'r Gwaredwr yn cynnig i'r Laodiceaid y cyfle i ailddarganfod ei gyfoeth Ef:

Aur pur. Yng Nghrist mae trysor pur sy'n para byth. Cawn faddeuant a chymod â Duw, cawn fywyd Duw yn ein henaid ni.

***Dillad gwyn*.** Gallwn 'wisgo' Iesu Grist er mwyn cuddio ein pechodau. Mae'r wisg yma'n ffitio pawb, beth bynnag ei gefndir a'i angen fel pechadur, ac eto mae'n wisg a wnaed wrth fesur i enaid pob un ohonom.

Eli llygaid. Mae Crist yn agor ein llygaid i weld ein hangen am Dduw, i weld Duw yn cwrdd â'n hangen yng Nghrist, i weld bywyd yn y byd hwn mewn persbectif tragwyddol.

Swper. Mae'n cynnig ei gymdeithas barhaus i bwy bynnag wnaiff agor y drws, iddo brofi ei gwmnïaeth hyfryd a chael gwledda ar ei gariad.

Diolch am amynedd y Ceidwad yn curo ar ddrws eglwys Laodicea er mwyn cael mynedfa eto. Os yw'n curo ar ddrws dy fywyd di, neu ddrws dy eglwys, agor iddo!